

Dogfennau sy'n arddangos eich galluogrwydd i weithio yn y DU

- Hen Basport neu Basport cyfredol sy'n dangos fod y deiliad, neu'r person a enwir yn y pasport fel plentyn i'r deiliad yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd i'r DU a'r trefedigaethau sydd â hawl i fyw yn y DU. [gweler y nodyn isod am ba rannau o'r pasport y dylid ei copio.]
- Hen Basport, Pasport cyfredol neu gerdyn adnabod sy'n dangos fod y deilydd neu berson a enwir yn y pasport fel plentyn y deilydd yn ddinesydd mewn gwlad sy'n aelod o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
- Tystysgrif Gofrestru neu ddogfen gan y Swyddfa Gartref sy'n profi preswylfa barhaol i wladolyn o Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
- Cerdyn Preswyllo Parhaol gan y Swyddfa Gartref i aelod o deulu gwladolyn o Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
- Dogfen Mewnfudiad Biometrig **gyfredol** (Cerdyn Preswyllo Biometrig) y Swyddfa Gartref i'r deiliad yn nodi caniatâd i'r unigolyn a enwir i aros am gyfnod amhenodol yn y DU.
- Pasport **cyfredol** sydd wedi ei ardystio i ddangos fod yr unigolyn wedi ei eithrio o reolaeth mewnfudiad, bod ganddo hawl i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, bod ganddo hawl i breswyllo yn y DU ac nad oes unrhyw derfyn amser ar ei arhosiad yn y DU.
- Dogfen Statws Mewnfudiad **cyfredol** y Swyddfa Gartref i'r deiliad gydag ardystiad sy'n nodi fod y person a enwir wedi derbyn caniatâd i aros am gyfnod amhenodol yn y DU neu fod dim terfyn amser ar ei arhosiad yn y DU, **ynghyd â chyflwyniad** o ddogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw ac wedi ei gyflwyno gan Asiantaeth Lywodraethol neu gyn cyflogwr.
- Tystysgrif geni neu fabwysiadu **llawn** sy'n cynnwys enw(au) o leiaf un o rieni neu rieni mabwysiedig y deiliad, **ynghyd â chyflwyniad** o ddogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Gwladol barhanol yr unigolyn a'i enw ac wedi ei gyflwyno gan Asiantaeth Lywodraethol neu gyn cyflogwr.
- Tystysgrif Geni neu Fabwysiadu o Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon **ynghyd â chyflwyniad** o ddogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Gwladol barhanol yr unigolyn a'i enw ac wedi ei gyflwyno gan Asiantaeth Lywodraethol neu gyn cyflogwr.
- Tystysgrif gofrestru neu ddinasyddiad fel dinesydd Prydeinig, **ynghyd â chyflwyniad** o ddogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Gwladol barhanol yr unigolyn a'i enw ac wedi ei gyflwyno gan Asiantaeth Lywodraethol neu gyn cyflogwr.
- Pasport **cyfredol** sy'n ardystio fod hawl gan y deiliad i aros yn y DU a bod hawl ganddo i weithio ac nad yw'n destun amod sy'n ei rwystro rhag gwneud gwaith trwyddedadwy.
- Dogfen Mewnfudiad Biometrig **gyfredol** (Cerdyn Preswyllo Biometrig) y Swyddfa Gartref i'r deiliad yn nodi caniatâd i'r unigolyn a enwir i aros yn y DU a bod hawl ganddo wneud gwaith trwyddedadwy.
- Cerdyn Preswyllo **cyfredol** gan y Swyddfa Gartref i berson nad sy'n wladolyn o Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ond sy'n aelod o deulu gwladolyn o'r fath neu sydd â hawliau deilliannol neu breswyllo.

- Dogfen Statws Mewnfudiad **cyfredol** y Swyddfa Gartref i'r deiliad, sy'n cynnwys llun gydag ardystiad sy'n nodi fod y person a enwir wedi derbyn caniatâd i aros yn y DU a bod hawl ganddo weithio ac nad yw'n destun un rhywbeth sy'n ei rwystro rhag gwneud gwaith trwyddedadwy **ynghyd â chyflwyniad** o ddogfen swyddogol sy'n nodi Rhif Yswiriant Gwladol barhanol yr unigolyn a'i enw ac wedi ei gyflwyno gan Asiantaeth Lywodraethol neu gyflogwr.
- Tystysgrif Ymgeisio, **sy'n llai na 6 mis oed**, a ddyrodwyd gan y Swyddfa Gartref yn unol â rheoliadau 17(3) neu 18A (2) o Reoliadau Mewnfudiad (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2006, i unigolyn nad sy'n wladolyn o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ond sy'n aelod o deulu gwladolyn o'r fath neu sydd â hawliau preswyllo deilliannol.
- Tystiolaeth resymol fod gan yr unigolyn gais nad yw eto wedi ei gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref i amrywio ei ganiatâd i fod yn y DU; tebyg i llythyr o gydnabyddiaeth gan y Swyddfa Gartref neu dystiolaeth yn profi postio neu dystiolaeth resymol fod gan yr unigolyn apêl neu adolygiad gweinyddol ar droed parthed penderfyniad sy'n ymwneud â mewnfudiad tebyg i rif cyfeirnod apêl neu adolygiad gweinyddol.
- Tystiolaeth resymol fod unigolyn nad sy'n wladolyn o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd na'r Swistir ond sydd yn aelod teuluol i wladolyn o'r fath neu sydd â hawliau deilliannol i breswyllo ac ymarfer hawliau cytuniad yn y DU, gan gynnwys:-
 - tystiolaeth i adnabod yr ymgeisydd - tebyg i basport,
 - tystiolaeth o'i berthynas ag aelod teuluol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd – e.e tystysgrif briodas, tystysgrif briodas sifil neu dystysgrif geni a
 - thystiolaeth fod gan y gwladolyn Ardal Economaidd Ewropeaidd hawl i [breswyllo'n barhaol yn y DU](#) neu yn un o'r canlynol, os ydynt wedi bod yn y DU am fwy na 3 mis:
 - (i) gweithio e.e. cytundeb cyflogaeth, nodyn cyflog, llythyr gan y cyflogwr,
 - (ii) hunangyflogedig e.e. cytundebau, anfonebau neu gyfrifon banc,
 - (iii) astudio e.e. llythyr gan yr ysgol, coleg neu brifysgol a thystiolaeth o gyllid digonol; neu
 - (iv) hunan ddigonol e.e. datganiadau banc.